


Adroddiad Arolygu ar gyfer Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Eirlys, Bae Colwyn,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 30 Mehefin 2026

Dyddiad cyhoeddi: 30 Medi 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau amgen gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-217-7

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym.....	9
Ansawdd Profiad y Claf	9
Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	16
4. Y camau nesaf.....	19
Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	21
Atodiad C – Cynllun gwella	22



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Eirlys, Bae Colwyn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 30 Mehefin 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 11 o holiaduron gan gleifion a chwblhawyd 10 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod y staff yn y practis deintyddol yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w cleifion. Dywedodd pob un o'r unigolion a ymatebodd i holiadur AGIC fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' a chafwyd adborth cadarnhaol am y practis, y triniaethau a'r staff.

Roedd yr adeilad yn lân yr olwg, mewn cyflwr da ac yn darparu amgylchedd dymunol i'r cleifion.

Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion mewn modd cwrtais, cyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd trefniadau da ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd apwyntiadau a gofal brys ar gael yn hawdd
- Roedd y gwasanaeth yn annog adborth gan gleifion, ac yn gweithredu arno.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn drefnus. Roedd y deintyddfeydd yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben. Roedd pob ardal yn ymddangos yn lân ac yn daclus ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd y staff yn dilyn gweithdrefnau clir i sicrhau bod offer deintyddol yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio. Roedd ystafell ar wahân yn cael ei defnyddio i ddihalogi, ac mae hyn yn arfer da yn ein barn ni.

Roedd cofnodion y cleifion o safon uchel, ac roedd gwybodaeth glinigol yn cael ei chofnodi'n effeithiol.

Gwelsom fod mesurau priodol ar waith i sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff. Roedd mesurau cynhwysfawr ar waith i reoli risgiau, gan gynnwys diogelwch tân a pharhad busnes. Gwelsom fod gweithdrefnau priodol ar waith i hybu diogelwch cleifion, gan gynnwys diogelu plant ac oedolion agored i niwed.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwneud mân atgyweiriadau i sicrhau diogelwch cleifion a staff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr ardaloedd clinigol yn lân, yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben
- Roedd trefniadau da ar waith i ymdrin ag argyfyngau meddygol
- Roedd cofnodion y cleifion o safon uchel ar y cyfan.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd arweinyddiaeth dda yn y practis, ynghyd â llinellau atebolrwydd clir. Gwelsom fod rheolwr y practis yn dangos ymrwymiad clir i ddarparu gofal o safon uchel, a'i bod yn cael ei chefnogi'n effeithiol gan ei staff.

Roedd cofnodion y staff yn gyflawn, a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf yn unol â gofynion rheoliadol. Gwelsom dystiolaeth hefyd o gyfarfodydd staff rheolaidd a phrosesau rheoli perfformiad.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd ac roedd systemau electronig yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

Gwelsom dystiolaeth bod amrywiaeth dda iawn o archwiliadau clinigol ac anghlinigol yn cael eu cynnal. Nodwyd bod trafodaethau'n cael eu cynnal ag AaGIC er mwyn rhoi rhaglen o fesurau gwella ansawdd ar waith dros bum mlynedd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi systemau ar waith er mwyn gallu goruchwylio hyfforddiant y staff a chwynion gan gleifion yn haws.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd systemau ar waith i sicrhau bod polisiâu a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- Systemau a chofnodion cadarn ar gyfer recriwtio a chyflogi staff

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Rhoddodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC adborth cyson gadarnhaol am y practis, mynediad at ofal a'r driniaeth roeddent wedi'i chael. Dywedodd pawb a ymatebodd fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Staff ardderchog. Rwy'n berson nerfus iawn pan fydd angen mynd i weld y deintydd, ond mae pawb wedi gwneud i mi deimlo'n gyfforddus ac yn hamddenol iawn. Cefais dynnu dannedd ar frys ac roeddwn i'n nerfus iawn. Roedd y nyrs ddeintyddol yn arbennig iawn.”

“Rwyf wedi bod yn dod yma ers nifer o flynyddoedd. Rwyf wedi cael canser ddwywaith ac mae'r practis a'r staff wedi bod yn ddeallgar iawn gyda fy nhriniaethau (o ran yr hyn y gallaf ei gael ac na allaf ei gael). A+.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom amrywiaeth dda o daflenni a phosteri yn y dderbynfa, a oedd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion am y gwasanaethau a ddarperir. Roedd taflenni ar gael a oedd yn rhoi gwybodaeth am roi'r gorau i smygu. Efallai yr hoffai'r practis ystyried arddangos gwybodaeth ychwanegol am hybu iechyd y geg, fel gwybodaeth am fwytia'n iach ac adnoddau ymwybyddiaeth o alcohol, er mwyn helpu cleifion ymhellach i gynnal iechyd y geg da.

Roedd copïau o'r daflen wybodaeth i gleifion ar gael yn y practis ac ar wefan y practis. Nodwyd gennym fod Datganiad o Ddiben cyfredol ar gael yn y practis, ond nid oedd ar gael ar wefan y practis.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y Datganiad o Ddiben ar gael ar wefan y practis.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y staff wedi esbonio iechyd eu ceg yn glir a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn modd cwrtais, cyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau ac nid oedd modd gweld i mewn drwy'r ffenestri allanol yn yr ardaloedd clinigol er mwyn hybu

preifatrwydd y cleifion. Gellid mynd â chleifion a oedd am gael trafodaeth breifat i swyddfa rheolwr y practis.

Roedd cerddoriaeth yn cael ei chwarae yn y dderbynfa i hybu preifatrwydd y cleifion ymhellach.

Roedd prisiau triniaethau ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat ar gael yn glir i'r cleifion yn y dderbynfa ac ar wefan y practis. Roedd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr gyfredol hefyd yn cael ei harddangos.

Roedd naw egwyddor foesegol cod safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos ar bosteri yn yr ardal aros.

Roedd enwau'r staff clinigol, eu rolau a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos ger mynedfa'r practis. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod disgwyl i'r wybodaeth hon gael ei diweddarau er mwyn adlewyrchu newidiadau staffio diweddar.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf, a gadarnhaodd fod gwybodaeth adnabod a hanesion meddygol priodol yn cael eu cofnodi.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC a fynegodd farn fod y staff wedi rhoi digon o wybodaeth iddynt ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, ynghyd â'u risgiau a'u manteision.

Amserol

Gofal amserol

Roedd oriau agor y practis wedi'u harddangos yn glir ger mynedfa'r practis, yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar wefan y practis.

Dywedodd y staff wrthym fod amser ar gyfer apwyntiadau brys wedi'i gynnwys fel rhan o amserlen ddyddiol pob deintydd a bod apwyntiadau brys yn cael eu blaenoriaethu, yn seiliedig ar symptomau ac anghenion clinigol cleifion. Roedd staff y dderbynfa yn defnyddio canllaw brysbennu, a ddatblygwyd yn fewnol gyda chymorth y staff clinigol.

Roedd gwybodaeth am sut i gael gofal y tu allan i oriau yn cael ei harddangos yn glir y tu mewn a'r tu allan i'r practis ac ar wefan y practis.

Roedd systemau effeithiol ar waith i staff yn y deintyddfeydd allu cyfathrebu â staff y dderbynfa. Dywedwyd wrthym y byddai cyfleuster negeseuon uniongyrchol yn cael ei ddefnyddio i roi gwybod am unrhyw achosion o oedi i driniaethau, ac y byddai staff y dderbynfa yn cyfleu'r wybodaeth honno ar lafar i'r cleifion. Byddai'r cleifion yn cael

cynnig yr opsiwn i aildrefnu eu hapwyntiad pe bai angen iddynt wneud hynny.

Dywedodd bron pob un o'r rhai a gwblhaodd holiadur AGIC ei bod yn 'hawdd iawn' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt, a dywedodd un ymatebydd ei bod yn 'eithaf hawdd' cael apwyntiad.

Roedd y practis yn defnyddio rhestr byr rybudd er mwyn cynnig apwyntiadau a oedd wedi'u canslo i gleifion nad oedd angen gofal brys arnynt ond a fyddai'n elwa ar gael gofal yn gynt na'r hyn a drefnwyd.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd y practis yn defnyddio llechi electronig er mwyn i'r cleifion gwblhau ffurflenni hanes meddygol a chydysnio, ac roedd yn bosibl i'r cleifion chwyddo'r sgrin er mwyn gweld y ffurflenni mewn fformat mwy yn ôl yr angen. Roedd ap cyfieithu ar gael ar y dyfeisiau, a oedd yn sicrhau bod cyfieithiad ar gael ar unwaith mewn ieithoedd amrywiol, gan gynnwys iaith Arwyddion Prydain.

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn gweithredu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, ac roedd rhywfaint o wybodaeth i gleifion ar gael yn ddwyieithog. Dywedwyd wrthym fod nifer bach o staff y practis yn siarad Cymraeg, gan gynnwys rheolwr y practis. Roedd rhai aelodau o'r staff yn gwisgo bathodyn 'Iaith Gwaith' i ddangos eu bod yn siarad Cymraeg.

Hawliau a chydraddoldeb

Roedd polisi cydraddoldeb, urddas a hawliau dynol ar waith yn y practis, a oedd yn cynnwys cyfeiriadau at ddeddfwriaeth a nodweddion gwarchodedig perthnasol. Roedd y polisi yn gynhwysfawr, yn gyfredol ac yn berthnasol i gleifion ac i'r staff.

Dywedodd y staff wrthym fod enwau a rhagenwau a ffeirir yn cael eu nodi yng nghofnodion y cleifion, er mwyn sicrhau bod cleifion trawsryweddol neu anneauidd yn cael eu trin â pharch.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad o fynediad i bobl anabl ac roedd mesurau amrywiol ar waith i helpu cleifion ag anawsterau symudedd. Roedd y practis wedi'i leoli ar yr ail lawr, gyda mynediad gwastad drwyddo, ac roedd lifft ar gael. Roedd cadair achub hefyd ar gael i sicrhau y gallai cleifion adael yr adeilad yn ddiogel pe bai argyfwng lle na ellid defnyddio'r lifft.

Roedd gan ddesg y dderbynfa ran is ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn ac roedd toiled hygyrch ar gael a oedd yn cynnwys handlenni cydio a larwm cortyn tynnu mewn argyfwng.

Roedd dolen sain ar gael yn y dderbynfa ac roedd arwyddion yn annog y cleifion i roi gwybod i'r staff os oedd angen cymorth arnynt. Roedd cadair bariatrig y gellir addasu ei

huchder ar gael yn yr ystafell aros.

Dywedodd y staff wrthym fod nodiadau'n cael eu cadw yng nghofnodion y cleifion i nodi anghenion penodol, fel trefnu bod pobl sy'n defnyddio cadair olwyn yn gallu defnyddio'r ystafell drin fawr.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod y safle mewn cyflwr da ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg. Roedd y practis yn lân yr olwg, yn daclus ac nid oedd unrhyw annibendod.

Nid oedd clo wedi'i osod ar yr ystafell stoc ac roedd clo ar ddrws a oedd yn gwahanu'r ystafell ddihalogi a'r ardal allanol wedi torri. Gwnaethom gynghori y dylid gosod a thrwsio cloeon er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cloeon priodol yn cael eu gosod er mwyn atal mynediad anawdurdodedig i'r ystafell stoc a'r ystafell ddihalogi.

Gwelsom rywfaint o dystiolaeth o fân ddifrod yn yr ystafell aros yr oedd angen ei drwsio, gan gynnwys difrod i'r llawr. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod prosiect ar waith i wneud desg y dderbynfa yn fwy ac y byddai atgyweiriadau'n cael eu gwneud fel rhan o'r gwaith adnewyddu hwnnw.

Roedd yr ystafelloedd trin mewn cyflwr da ar y cyfan. Roedd angen selio'r llawr mewn un deintyddfa ac roedd rhywfaint o ôl traul yn y deintyddfeydd eraill. Roedd tair deintyddfa wedi cael eu hadnewyddu'n ddiweddar a dywedodd y staff wrthym fod rhaglen dreigl ar waith i adnewyddu'r deintyddfeydd eraill. Roedd yr ystafelloedd trin yn cynnwys cyfarpar i hybu defnydd diogel, fel nodwyddau diogelwch.

Gwelsom fod gan y practis bolisi cynnal a chadw ar gyfer yr adeilad a'r cyfarpar er mwyn sicrhau bod y safle yn addas at y diben, a bod risgiau'n cael eu hasesu a'u rheoli'n briodol. Roedd polisi lechyd a Diogelwch cynhwysfawr yn cael ei ategu gan asesiadau risg a chynlluniau gweithredu. Roedd polisïau a gweithdrefnau Cynllunio ar gyfer Trychinebau a Rheoli Parhad Busnes ar waith.

Roedd trefniadau priodol ar gyfer ymdrin â deunyddiau o dan y gweithdrefnau ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd (COSHH) a'u storio.

Gwelsom dystiolaeth bod profion cyfredol wedi cael eu cynnal ar offer cludadwy (PAT) ac offer nwy, a bod adroddiad cyfredol wedi'i gwblhau ar gyflwr y gosodiadau trydanol.

Gwnaethom edrych ar ddogfennau yn ymwneud â diogelwch tân a gwelsom fod asesiad

risg tân cynhwysfawr ar waith yn ogystal â chynllun gweithredu wedi'i ddiweddarau. Roedd arwyddion clir ar gyfer y llwybrau dianc a'r allanfeydd tân a gwelsom dystiolaeth bod ymarferion tân rheolaidd wedi cael eu cynnal. Roedd amrywiaeth o ddiffoddwyr tân wedi'u gosod ar y waliau, gyda labeli yn dangos eu bod wedi cael eu gwirio a'u gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y practis yn gweithio'n effeithiol gyda pherchennog yr adeilad i rannu gwybodaeth ac i sicrhau bod y cyfarpar canfod tân yn gweithio. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân. Roedd arwyddion 'dim smygu na fepio' yn cael eu harddangos yn glir, a oedd yn dangos bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Roedd cyfleusterau newid a loceri ar gyfer storio eitemau personol ar gael i'r staff.

Roedd y toiled rhywedd cymysg i gleifion yn lân yr olwg, ac roedd yn cynnwys cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ac uned gwaredu eitemau mislif.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau bod arferion rheoli heintiau o safon dda ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau priodol, trefniadau glanhau effeithiol ac arweinydd rheoli heintiau enwebedig.

Roedd ystafell ddynodedig yn y practis ar gyfer dihalogi a sterileiddio offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru WHTM 01-05. Roedd yr ystafell ddihalogi yn lân ac yn daclus, ac wedi'i dylunio'n effeithiol. Gwelsom fod y gweithdrefnau ar gyfer prosesu, dihalogi a sterileiddio yn briodol ac wedi'u deall yn dda. Roedd gwiriadau priodol yn cael eu cynnal o'r cyfarpar ac yn cael eu cofnodi.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn teimlo bod y practis yn lân iawn a bod mesurau atal a rheoli heintiau amlwg ar waith.

Roedd gweithdrefnau priodol ar gyfer gwaredu gwastraff. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio y tu allan ac roedd y biniau'n cael eu cloi mewn cawell metel. Gwelsom y gallai unrhyw berson fynd at y biniau pe bai'n ymestyn drws y gawell yn llawn a gwnaethom gynghori y dylid newid y clo. Ymdriniwyd â hyn drwy archebu clo newydd a rhoddwyd tystiolaeth yn syth ar ôl yr arolygiad i ddangos ei fod wedi cael ei osod.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom adolygu'r trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau a gwelsom fod mesurau cadarn a diogel ar waith ar gyfer trin, storio a gwaredu meddyginiaethau. Roedd padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd oergell ddynodedig ar gael i storio meddyginiaethau.

Gwnaethom archwilio'r trefniadau a oedd ar waith a'r cyfarpar a oedd ar gael i ddelio ag argyfyngau meddygol. Gwelsom fod y cyfarpar hwn yn foddhaol a bod cyfarpar a meddyginiaethau priodol yn cael eu storio'n ddiogel a bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau bod pob eitem ar gael ac yn gyfredol.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar adfywio cardiopwlmonaidd (CPR), a bod dau aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant i fod yn swyddogion cymorth cyntaf.

Dywedwyd wrthym fod yr hyfforddiant CPR yn cynnwys y defnydd o ocsigen ac roedd rhai aelodau o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant pellach ar ddefnyddio silindrau ocsigen BOC yn ddiogel yn unol â hysbysiad diogelwch cleifion. Gwnaethom argymhell y dylai pob aelod perthnasol o'r staff gwblhau'r hyfforddiant BOC.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant i gynnal CPR wedi cwblhau hyfforddiant penodol ar ddefnyddio silindrau ocsigen BOC yn ddiogel.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gan y practis bolisiau a gweithdrefnau cyfredol ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Roedd manylion cyswllt perthnasol ar gyfer uwchgyfeirio materion a siartiau llif y gellid cyfeirio atynt yn gyflym ar gael yn glir i'r staff.

Rheolwr y practis oedd yr arweinydd diogelu dynodedig ac roedd wedi cwblhau hyfforddiant priodol hyd at lefel 3. O edrych ar y cofnodion hyfforddiant, gwelwyd bod y staff wedi cael hyfforddiant cyfredol hyd at y lefel briodol ar ddiogelu oedolion a phlant.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwnaethom nodi bod y cyfarpar clinigol yn y practis yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar sut i ddefnyddio cyfarpar yn ddiogel ac roedd y cofnodion yn dangos bod y cyfarpar hwnnw yn cael ei wasanaethau a'i gynnal a'i gadw'n rheolaidd.

Gwnaethom edrych ar ddogfennau yn ymwneud â defnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel, a gwelsom eu bod yn gynhwysfawr ac yn briodol. Gwelsom fod stocrestr o gyfarpar pelydr-X, cofnodion cynnal a chadw a rheolau lleol ar waith.

Er bod cofnodion y cleifion o ansawdd uchel ar y cyfan, gwnaethom gynghori y dylent gynnwys gwybodaeth fwy cyson am gysylltiadau â phelydr-X, gan gynnwys y cyfiawnhad, yr atgyfeiriwr a'r gweithredwr a bod y risgiau a'r manteision wedi cael eu trafod, a dylid diweddarau'r system raddio ar gyfer radiograffau yn unol â'r canllawiau diweddaraf. Roedd y practis wedi dechrau defnyddio meddalwedd newydd yn ddiweddar a fyddai'n hwyluso'r broses o gofnodi'r wybodaeth hon.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol am gysylltiadau pelydr-X yn cael ei nodi yng nghofnodion y cleifion fel mater o drefn.

Roedd poster yn yr ystafell aros yn rhoi gwybod i'r cleifion am risgiau a manteision cysylltiadau pelydr-X. Gwnaethom gynghori y byddai'n arfer da arddangos posteri ym mhob ystafell drin lle y gallai cleifion ddod i gysylltiad â phelydr-X.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom fod aelodau perthnasol o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol).

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod trefniadau diogel ar waith yn y practis ar gyfer derbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin.

Drwy drafod â'r staff, cawsom sicrwydd y byddent yn gofyn am gyngor ac arweiniad proffesiynol ac yn eu dilyn lle bo angen.

Roedd y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol er mwyn lleihau'r risg o dynnu'r dant anghywir.

Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n electronig ac yn unol â pholisi rheoli cofnodion priodol. Roedd y practis wedi dechrau defnyddio meddalwedd newydd yn ddiweddar i fodloni'r gofynion newydd ar gyfer darparwyr y GIG.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion deg claf a gwelsom eu bod o safon gyson uchel, ac roedd un ohonynt yn rhagorol. Gwelsom dystiolaeth bod gwybodaeth glinigol yn cael ei chofnodi mewn modd trylwyr, cynhwysfawr a chyson. Roedd hyn yn cynnwys siartiau sylfaenol, archwiliadau periodontol sylfaenol, archwiliadau meinweoedd meddal ac archwiliadau y tu allan a'r tu mewn i'r geg, a phrofion sgrinio am ganser.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod sesiynau clinigol yn cael eu defnyddio'n effeithlon a bod apwyntiadau wedi'u canslo yn cael eu cynnig i gleifion eraill.

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod cleifion yr oedd angen triniaeth frys arnynt yn deall sut i gael gfael ar wasanaethau y tu allan i oriau. Roedd hysbysiad ger y fynedfa flaen yn rhoi cyngor ar sut i reoli pryderon deintyddol a llwybrau deintyddol i'w dilyn i gael triniaeth frys neu driniaeth nad yw'n frys.

Roedd system atgyfeirio effeithlon ar waith yn y practis drwy ddefnyddio system ar-lein Cymru gyfan, ac roedd nodiadau atgyfeirio manwl wedi'u cynnwys yng nghofnodion y cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Cafwyd ymatebion cadarnhaol iawn ar y cyfan gan y staff i holiadur AGIC mewn perthynas â'r cyfleusterau, y cyfarpar a'r hyfforddiant a ddarperir. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno mai gofalu am y cleifion oedd prif flaenoriaeth y practis ac roeddent yn fodlon ar lefel y gofal a ddarperir. Roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn fodlon ar niferoedd y staff a'r cymysgedd sgiliau yn y practis, ond roedd un ymatebydd o'r farn bod angen mwy o staff. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr y byddent yn argymhell y practis fel lle da i weithio ynddo.

Dywedodd un aelod o'r staff:

“Mae pob aelod o'r staff, yn staff clinigol neu'n staff gweinyddol, yn barod iawn i helpu o fewn eu maes ymarfer. Caiff yr holl bolisiau ac ati eu hadolygu'n gyson. Mae lefelau cydymffurfiaeth yn cael eu goruchwyllo a rhennir y wybodaeth ddiweddaraf bob amser mewn cyfarfodydd neu cyn hynny yn ôl yn angen.”

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd strwythurau rheoli clir ar waith, ac roedd y practis yn gweithredu o dan gyfarwyddyd rheolwr practis effeithiol. Gwelsom ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaeth o safon uchel a dull gweithredu cadarnhaol ar gyfer gwneud gwelliannau.

Gwelsom dystiolaeth bod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a bod cofnodion yn cael eu dosbarthu er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Roedd y nyrsys deintyddol hefyd yn cael cyfarfodydd wythnosol ac roedd cyfarfod sgrym dyddiol yn cael ei gynnal.

Roedd y staff yn cael arfarniadau rheolaidd a gwelsom enghreifftiau lle roedd y staff wedi cael cymorth i gwblhau hyfforddiant pellach. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi defnyddio adnoddau a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i helpu i nodi anghenion hyfforddiant ac i wella ansawdd, fel y Matrics Aeddfedrwydd a'r Pecyn Cymorth Hunanasesu ar gyfer Optimeiddio Sgiliau (SOSET).

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ac roedd y staff yn cael gwybod am unrhyw newidiadau. Roedd y practis yn defnyddio systemau electronig yn effeithiol i storio, rhannu a diweddarau polisiau a gweithdrefnau.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyflogi staff. Gwelsom bolisïau a gweithdrefnau, a oedd yn rhoi manylion am y broses recriwtio a'r gwiriadau a gynhelir ar ddarpar gyflogeion. Roedd y gwiriadau cyn cyflogi yn cynnwys prawf adnabod, yr hawl i weithio yn y DU, cymwysterau proffesiynol a brechiadau.

Er mwyn sicrhau parhad gofal, gallai'r practis ddefnyddio staff o bractisau eraill yn y grŵp, ond roedd hefyd yn defnyddio staff asiantaeth o bryd i'w gilydd. Dywedodd y staff wrthym fod eu contractau gyda'r asiantaeth yn sicrhau bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal i gadarnhau bod staff yn addas i weithio.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion chwe aelod o staff a gwelsom fod y staff wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod gwiriadau priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cwblhau. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod gan y staff yswiriant indemniad proffesiynol a'u bod wedi'u brechu'n briodol rhag Hepatitis B. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion un aelod o'r staff yn cynnwys cadarnhad o'i himiwnedd rhag Hepatitis B a dylid bod wedi cwblhau asesiad risg nes y gellir cadarnhau ymateb boddhaol mewn perthynas â'r brechiadau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod asesiad risg ar waith ar gyfer unrhyw aelod o'r staff nad yw ei imiwnedd i Hepatitis B wedi'i gadarnhau.

Roedd rheolwr y practis yn monitro cydymffurfiaeth y staff â gofynion hyfforddiant gorfodol ac roedd lefel y gydymffurfiaeth yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, gwelsom fod y cofnodion yn dameidiog a dylid defnyddio system fwy effeithiol i sicrhau trosolwg clir o gydymffurfiaeth.

Dylai'r rheolwr cofrestredig roi systemau clir a chadarn ar waith i ddarparu trosolwg o gydymffurfiaeth y staff â gofynion gorfodol.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd y practis yn gwahodd adborth gan gleifion ar lafar, ar-lein, drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu drwy ddefnyddio ffurflenni a oedd ar gael yn yr ystafell aros.

Roedd poster 'dywedoch chi, gwnaethom ni' i'w weld a oedd yn dangos bod y practis yn gweithredu ar adborth gan gleifion, gydag enghreifftiau'n cynnwys darparu dŵr yfed a newid y gerddoriaeth a oedd yn cael ei chwarae yn yr ystafell aros.

Roedd gweithdrefn gwyno gynhwysfawr ar waith, a oedd ar gael yn hwylus i gleifion ar y safle ac ar wefan y practis. Roedd y weithdrefn yn cynnwys amserlenni priodol ar gyfer ymateb a sut i uwchgyfeirio'r mater pe bai angen, gyda manylion cyswllt ar gyfer cyrff

allanol perthnasol. Roedd gwybodaeth yn cael ei darparu am y gwasanaeth eirioli a oedd ar gael gan Llais, ac roedd y weithdrefn gwyno wedi cael ei diweddaru i gyfeirio at fframwaith 'Gwrando ar Bobl' y GIG a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2026.

Dywedodd y staff wrthym fod cwynion ysgrifenedig ac ar lafar yn cael eu cofnodi'n ganolog yn ogystal ag yng nghofnodion y cleifion. Roedd rheolwr y practis yn adolygu'r cwynion yn rheolaidd, ond nid oedd cofnod goruchwyllo yn cael ei gynnal i helpu i nodi unrhyw themâu neu faterion sy'n codi dro ar ôl tro.

Dylai'r rheolwr cofrestredig ychwanegu adran goruchwyllo at y cofnod cwynion i helpu i nodi themâu neu faterion sy'n codi dro ar ôl tro.

Roedd polisi ar waith yn y practis ar gyfer y Ddyletswydd Gonestrwydd, gan gynnwys gofynion hysbysu.

Roedd unrhyw wersi a ddysgwyd o adborth neu gwynion yn cael eu rhannu â'r staff perthnasol mewn cyfarfodydd tîm.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd polisiâu, gweithdrefnau a systemau priodol ar waith yn y practis i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei dal a'i rhannu'n ddiogel ac yn gyfrinachol.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth bod amrywiaeth dda iawn o archwiliadau clinigol ac anghlinigol yn cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol: legionella, gwastraff gofal iechyd, y defnydd o gyffuriau gwrthficrobaidd, radiograffeg, defnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel, COSHH, nodiadau clinigol, WHTM 01-05, atal a rheoli heintiau, rhoi'r gorau i smygu, mynediad i bobl anabl ac asesiadau lechyd a Diogelwch rheolaidd a'r risg o dân.

Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal ag AaGIC er mwyn rhoi rhaglen o fesurau gwella ansawdd ar waith dros bum mlynedd.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Disgrifiodd y staff ddulliau priodol o ymgysylltu â phartneriaid, gan gynnwys y defnydd o systemau electronig fel eDEN ac NHS Compass. Roedd y practis wedi diweddaru gweithdrefnau a systemau yn unol â chontract deintyddol diwygiedig y GIG a ddaeth i rym yn ddiweddar ar 01 Ebrill 2026.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio y tu allan ac roedd y biniau'n cael eu cloi mewn cawell metel. Gwelsom y gallai unrhyw berson fynd at y biniau pe bai'n ymestyn drws y gawell yn llawn a gwnaethom gynghori y dylid newid y clo.	Gallai'r clo alluogi unigolion heb awdurdod i ddod i gysylltiad â gwastraff clinigol.	Trafodwyd y mater â rheolwr y practis.	Ymdriniwyd â hyn drwy archebu clo newydd a rhoddwyd tystiolaeth yn syth ar ôl yr arolygiad i ddangos ei fod wedi cael ei osod.

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Eirlys, Bae Colwyn

Dyddiad yr arolygiad: 30 Mehefin 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau		Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad.	
Yr hyn sydd angen ei wella		Safon / Rheoliad	
1.	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	
Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:		Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ddim yn gymwys		Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Eirlys, Bae Colwyn

Dyddiad yr arolygiad: 30 Mehefin 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Roedd gan y practis Ddatganiad o Ddiben cyfredol ond nid oedd copi ar gael ar wefan y practis.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y Datganiad o Ddiben ar gael ar wefan y practis.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017: Rheoliad 5	Mae'r mater hwn wedi cael ei gyfeirio at ddylunydd y wefan er mwyn ychwanegu'r datganiad o ddiben at y wefan	Dawn Gorle	Diwedd mis Awst
2.	Nid oedd clo wedi'i osod ar yr ystafell stoc ac roedd clo ar ddrws a oedd yn gwahanu'r ystafell ddihalogi a'r ardal allanol wedi torri.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cloeon priodol yn cael eu gosod er mwyn atal mynediad anawdurdodedig i'r ystafell stoc a'r ystafell ddihalogi.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017: Rheoliad 22	Mae clo bellach wedi cael ei osod ar ddrws yr ystafell stoc Rydym yn aros am glo newydd ar gyfer yr ystafell ddihalogi gan nad oedd yr un a archebwyd yn gywir	Dawn Gorle	Clo'r ystafell stoc – wedi'i gwblhau Clo'r ystafell ddihalogi – i'w gwblhau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 10/08/2026

3.	Dywedwyd wrthym fod yr hyfforddiant CPR yn cynnwys y defnydd o ocsigen ac roedd rhai aelodau o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant pellach ar ddefnyddio silindrau ocsigen BOC yn ddiogel yn unol â hysbysiad diogelwch cleifion. Gwnaethom argymhell y dylai pob aelod perthnasol o'r staff gwblhau'r hyfforddiant BOC.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant i gynnal CPR wedi cwblhau hyfforddiant penodol ar ddefnyddio silindrau ocsigen BOC yn ddiogel.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017: Rheoliad 17	Rydym wedi cofrestru staff ar gyfer yr hyfforddiant a byddant yn ei gwblhau	Dawn Gorle	Rydym wedi rhoi terfyn amser ym mis Awst ar gyfer pob aelod o'r staff
4.	Dylai cofnodion y cleifion gynnwys gwybodaeth fwy cyson am gysylltiadau pelydr-X, gan gynnwys y cyfiawnhad, yr atgyfeiriwr a'r gweithredwr a bod y risgiau a'r manteision wedi cael eu trafod, a dylid diweddarau'r system raddio ar gyfer radiograffau yn unol â'r canllawiau diweddaraf.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol am gysylltiadau pelydr-X yn cael ei nodi yng nghofnodion y cleifion fel mater o drefn.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017: Rheoliad 20	Mae neges e-bost wedi cael ei hanfon at bob Clinigydd yn amlinellu pwysigrwydd y mater hwn	Dawn Gorle	Wedi'i gwblhau

5.	Nid oedd cofnodion un aelod o'r staff yn cynnwys cadarnhad o'i himiwnedd rhag Hepatitis B a dylid bod wedi cwblhau asesiad risg nes y gellid cadarnhau ymateb boddhaol mewn perthynas â'r brechiadau.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod asesiad risg ar waith ar gyfer unrhyw aelod o'r staff nad yw ei imiwnedd i Hepatitis B wedi'i gadarnhau.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017: Rheoliad 13	Trafodwyd y mater hwn â'r aelod o'r staff sydd mewn cysylltiad â'r gwasanaeth lechyd Galwedigaethol i ofyn am ei chofnodion. Mae asesiad risg wedi'i roi ar waith dros dro.	Dawn Gorle	Diwedd mis Awst
6.	Gwelsom fod y cofnodion hyfforddiant gorfodol yn dameidiog a dylid defnyddio system fwy effeithiol i sicrhau trosolwg clir o gydymffurfiaeth.	Dylai'r rheolwr cofrestredig roi systemau clir a chadarn ar waith i ddarparu trosolwg o gydymffurfiaeth y staff â gofynion gorfodol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017: Rheoliad 17	Mae taenlen Excel wedi cael ei chreu ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus y staff – gweler yn atodedig	Dawn Gorle	Ar waith, i'w gadarnhau ddiwedd mis Awst
7.	Nid oedd cofnod goruchwyllo cwynion yn cael ei gynnal i helpu i nodi unrhyw themâu neu faterion sy'n codi dro ar ôl tro.	Dylai'r rheolwr cofrestredig ychwanegu adran goruchwyllo at y cofnod cwynion i helpu i nodi themâu neu faterion sy'n codi dro ar ôl tro.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017: Rheoliad 21	Mae cofnod newydd wedi cael ei greu – gweler yn atodedig	Dawn Gorle	I'w ddiweddarau â'r holl gwynion a gafwyd eleni. I'w gwblhau erbyn diwedd mis Awst

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Dawn Gorle

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 22/07/2026